ADSS Cymru

Leading Social Services in Wales

Yn arwain Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru

# EIN STRATEGAETH

# 2018-2021



# CYNNWYS_


3_ Rhagair

4_ Pwy ydym ni

5_ Beth rydym yn ei wneud

6_ Heriau a sbardunau allanol ar gyfer newid

8_ Y materion a’r gweithgareddau rydym yn ymgymryd â nhw

10_ Gweithredu ein strategaeth




## Manylion cyswllt


**ADSS Cymru**
Uned Busnes ADSS Cymru
Ty Antur, Parc Mordwyaeth,
Abercynon CF45 4SN

Ffôn: 01443 742641
Ebost: contact@adsscymru.org.uk
Gwefan: adsscymru.org.uk
Twitter: @adsscymru



© 2018 Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru

Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhyrchu unrhyw ran o’r cyhoeddiad hwn na’i gadw mewn cyfundrefn adferadwy na’i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng heb ganiatâd ysgrifenedig Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru ymlaen llaw. Dylai ymholiadau am atgynhyrchu y tu hwnt i’r hyn a ganiateir yn benodol gan y gyfraith gael eu hanfon at y Rheolwr Busnes yn y cyfeiriad a roddir uchod.

# RHAGAIR_

Diolch am roi o'ch amser i ddarllen ein Strategaeth 2018 – 2021 ac i ddysgu am Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru – pwy ydym ni, beth rydym yn ei wneud ac, yn bwysicach, beth rydym yn bwriadu ei gyflawni yn ystod y tair blynedd nesaf.

Rôl ADSS Cymru, fel y sefydliad arweinyddiaeth cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, yw cynrychioli llais cyfunol, awdurdodol Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, Penaethiaid Gwasanaethau i Oedolion, Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Busnes, ynghyd â gweithwyr proffesiynol sy'n cefnogi plant ac oedolion sy'n agored i niwed, eu teuluoedd a chymunedau, ar amrediad o faterion cenedlaethol a rhanbarthol cysylltiedig â pholisïau, arferion ac adnoddau gofal cymdeithasol. Ni yw'r unig gorff cenedlaethol sy'n gallu mynegi barn y gweithwyr proffesiynol hynny sy'n arwain ein gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Rydym yn ymroddedig i ddefnyddio'r cyfoeth o brofiad ac arbenigedd sydd gan ein haelodau, gan weithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau eraill, er mwyn dylanwadu ar benderfyniadau pwysig ynghylch gofal cymdeithasol er budd y bobl rydym yn rhoi cymorth iddynt a'r bobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau gofal.

**Mae ein strategaeth yn dangos y rhan bwysig rydym yn ei chwarae o ran:**

- cynghori Llywodraeth Cymru ynghylch polisïau gofal cymdeithasol trwy ymateb i ymgynghoriadau, cymryd rhan mewn gweithgorau, a rhoi sylwadau ffurfiol ac anffurfiol
- cynnig strategaethau a mentrau cenedlaethol
- darparu briffiau a gwybodaeth gydgysylltiedig ar gyfer aelodau cabinet, cabinetau ac arweinwyr
- ymchwilio, casglu a chyflwyno arfer da arloesol
- darparu tystiolaeth ar gyfer pwyllgorau craffu Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- ymgysylltu â sefydliadau cenedlaethol i hyrwyddo modelau effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau
- cefnogi datblygiadau gwasanaethau cenedlaethol
- cydlynu mentrau cenedlaethol er mwyn cynorthwyo gweithwyr rheng flaen a'u rheolwyr
- cefnogi gwaith llywodraeth leol trwy hyrwyddo'r defnydd o fodelau arfer gorau
- cefnogi cyfarwyddwyr a phenaethiaid gwasanaethau wrth ddatblygu gwasanaethau rhanbarthol
- bod yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer aelodau sydd am gael mynediad at arfer gorau a chymorth a chyngor proffesiynol.




Rydym yn gweithredu ar draws cenedl sy'n meddu ar gefndir diwylliannol ac ieithyddol cyfoethog a phwysig, lle mae dwy iaith, y Gymraeg a'r Saesneg, yn bwysig i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Rydym yn gwbl ymroddedig i arddangos yr arweinyddiaeth briodol mewn perthynas â hyn ac i sicrhau bod holl ddatblygiadau'r dyfodol yn cael eu symud ymlaen o fewn y cyd-destun hwn.

Mae darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol yn gyfrifoldeb heriol, ac felly bydd bob amser. Mae deddfwriaeth newydd, pwysau cyllidebol a disgwyliadau cynyddol gan y bobl a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu'n cyflwyno heriau a phwysau ffres.

Ein rôl, fel sefydliad cenedlaethol sydd â chyfrifoldeb dros y bobl hynny sy'n defnyddio ein gwasanaethau, yw sicrhau ein bod yn gallu newid a thyfu er mwyn diwallu'r heriau hynny, yn awr ac yn y blynyddoedd sydd i ddod.

**Dave Street**
Llywydd ADSS Cymru 2017 – 2018
Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

# PWY YDYM NI_

Rydym yn cynrychioli proffesiwn Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ac uwch-staff o fewn adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Rydym yn unigryw, felly, fel y sefydliad arweinyddiaeth proffesiynol a strategol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, gan arwain ar fentrau datblygu gwasanaethau cenedlaethol i sicrhau cysondeb, effeithlonrwydd a safon cyflenwi uchel ar gyfer pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth ledled Cymru.

## Sut rydym wedi ein trefnu

Daeth ADSS Cymru i fodolaeth ym mis Ebrill 2007, i adlewyrchu'r dirwedd wleidyddol a deddfwriaethol benodol yng Nghymru o ran gofal cymdeithasol. Dros y deng mlynedd ddiwethaf, rydym wedi bod yn sefydliad anghorfforedig gwirfoddol. Fodd bynnag, ym mis Tachwedd 2017, pleidleisiodd ADSS Cymru yn unfrydol dros ddod yn gorff corfforedig. Bydd y newid hwn mewn statws cyfreithiol yn cynnig y manteision canlynol:

- gosod y sefydliad ar sylfaen gadarnach
- ailddatgan yn hyderus pwysigrwydd cenedlaethol arweinyddiaeth broffesiynol mewn gofal cymdeithasol
- darparu sicrwydd ynghylch rôl y sefydliad yn y dyfodol wrth ddylanwadu ar bolisi cenedlaethol ac ysgogi'r gwaith o drawsnewid arferion darparu gwasanaethau.

Mae atebolrwydd ar gyfer gwaith ADSS Cymru yn ac fydd yn parhau i fod yn gyfrifoldeb y Bwrdd Llywodraethu, a gefnogir gan y Cyngor Gweithredol, sydd wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

**Bwrdd Llywodraethu**
Mae'r Bwrdd Llywodraethu, sy'n cwrdd bob chwe wythnos, yn gyfrifol am weithrediad y gymdeithas ac yn gweithredu fel corff gwneud penderfyniadau'r gymdeithas. Mae'r Bwrdd Llywodraethu'n cynnwys: Llywydd, dau is-lywydd, Trysorydd, Ysgrifennydd, Cyn-lywydd a saith cyfarwyddwr rhanbarthol arweiniol.

**Cyngor Gweithredol**
Prif ddiben y cyngor gweithredol yw gweithredu fel corff ymgynghorol, gan gynghori'r bwrdd yn ôl y gofyn o bryd i'w gilydd, ond nid yw'n gwneud penderfyniadau ar ran y bwrdd. Mae'r cyngor gweithredol yn cwrdd o leiaf dwywaith y flwyddyn ac yn cynnwys:

- 22 o gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol
- Cadeirydd Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan (AWHoCS)
- Cadeirydd Penaethiaid Gwasanaethau i Oedolion Cymru Gyfan (AWASH)
- Cadeirydd Penaethiaid Gwasanaethau Busnes Cymru Gyfan (AWHoBS)

## Ein Haelodau

Mae aelodaeth presennol ADSS Cymru yn cynnwys cyfarwyddwyr statudol gwasanaethau cymdeithasol, penaethiaid gwasanaethau plant, penaethiaid gwasanaethau i oedolion a phenaethiaid gwasanaethau busnes o bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Ynghyd â'n haelodau cyswllt (y mae nifer ohonynt yn gydweithwyr sydd bellach wedi ymddeol o'u rolau fel cyfarwyddwyr), mae gennym dros 100 o aelodau sy'n gallu cymryd rhan yn y gwaith o gefnogi ein rôl genedlaethol.

Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, mae'n bosibl y bydd llai o uwch-reolwyr yn gweithredu ar lefelau uchaf awdurdodau lleol wrth i wasanaethau gael eu cyfuno neu eu gweithredu o fewn ffiniau rhanbarthol. Efallai y bydd disgwyl i gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol weithio ar draws mwy nag un awdurdod lleol ac, yn wir, ar draws asiantaethau eraill. Bydd effeithiau tebyg ar benaethiaid gwasanaethau. Mae hyn yn golygu y bydd yr her o ran cynrychioli safbwyntiau gofal cymdeithasol a'r angen i lais gofal cymdeithasol gael ei glywed yn fwy nag erioed.

Rhaid i ADSS Cymru barhau i weithredu fel y cyfrwng sy'n galluogi'r llais hwnnw i gael ei glywed a rhaid iddi barhau i dyfu ei haelodaeth er mwyn cynyddu ei dylanwad. Yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf, byddwn yn:

- ceisio cynyddu ein haelodaeth sylfaenol i adlewyrchu rolau newidiol y rheiny sy'n arwain ein gwasanaethau gofal cymdeithasol
- sicrhau ein bod yn cynnwys nifer gynyddol o weithwyr proffesiynol yn ein gwaith
- adolygu cwmpas ein haelodaeth gyswllt i ehangu'r amrediad o unigolion a chynnwys y posibilrwydd ar gyfer aelodaeth sefydliadol.

# BETH RYDYM YN EI WNEUD_





## Ein Gweledigaeth

Ein gweledigaeth fel llais arweinwyr proffesiynol a strategol gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru yw i ddiogelu pob unigolyn ac i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i llesiant ac annibyniaeth pobl sy'n derbyn gofal a chymorth, trwy:

> dadlau yr achos dros wasanaethau gofal cymdeithasol cryf ac ymatebol

> rhoi rheolaeth wirioneddol a llais cryfach i bobl

> galluogi pobl i fyw eu bywydau yn llawn a chyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt trwy ganolbwyntio ar wasanaethau ataliol a chymorth

> adeiladu ar gryfderau dinasyddion a chryfderau'r bobl sydd o'u cwmpas, yn arbennig mewn perthynas â diogelu a chyfrifoldeb personol

> cefnogi datblygiad proffesiynol ein gweithlu gofal cymdeithasol i ddarparu'r lefel uchaf o ofal a chymorth i'n dinasyddion.

Fel sefydliad aelodaeth, ein rôl yw cefnogi a chynorthwyo datblygiad proffesiynol a dealltwriaeth aelodau ADSS Cymru a'u cefnogi i ddarparu cyngor proffesiynol ar gyfer aelodau cabinet ac arweinwyr ar draws llywodraeth leol.

## Ein Diben

Ein diben yw gweithio'n agos gydag unigolion a gofalwyr, Llywodraeth Cymru ac amrediad o sefydliadau cenedlaethol ar draws gwahanol sectorau i sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau ac sydd ag angen gofal a chymorth.

**Ein diben yw:**

- cefnogi unigolion i fod â llais cryfach a mwy o ddewis a rheolaeth dros ddatblygiad cymorth a gwasanaethau yn y dyfodol
- gweithio gyda phob partner i arwain ar y gwaith o drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau cyfoes, hygyrch ac ymatebol, sy'n cael eu cyflenwi mewn modd hyblyg, cyson a chynaliadwy ar draws ffiniau sefydliadol
- hyrwyddo ac ysgogi'r gwaith o weithredu blaenoriaethau ADSS Cymru
- llunio a dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu polisi cyhoeddus ledled Cymru
- darparu arweinyddiaeth gref ar gyfer gweithlu'r gwasanaethau cymdeithasol, sy'n meddu ar gymwysterau a hyfforddiant priodol ac sy'n broffesiynol alluog
- sicrhau bod gan wasanaethau cymdeithasol lais cryf wrth graidd corfforaethol llywodraeth leol, yn darparu cymorth proffesiynol i aelodau etholedig
- gweithio gyda phob partner i sicrhau gwasanaeth cyhoeddus rhagorol ledled Cymru
- meithrin a chryfhau perthnasau rhwng comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru
- hyrwyddo a gwella dealltwriaeth y cyhoedd o wasanaethau cymdeithasol a'r rhan gadarnhaol maent yn ei chwarae trwy ymgysylltu â'r cyfryngau, llunwyr barn a'r cyhoedd yn gyffredinol.

# HERIAU A SBARDUNAU > ALLANOL AR GYFER NEWID_





## Newidiadau mewn deddfwriaeth

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn parhau i weithredu fel y prif sbardun ar gyfer newid mewn gofal cymdeithasol a bydd yn parhau i fod am flynyddoedd i ddod. Mae'n dod â nifer o gyfleoedd ar gyfer gwella, ond mae hefyd yn golygu newid diwylliannol anferth i sefydliadau a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn cyflwyno heriau pellach – ffyrdd newydd i wasanaethau gael eu harolygu, cofrestru'r rhan fwyaf o weithwyr gofal cymdeithasol yn y diwydiant, a chreu Gofal Cymdeithasol Cymru, sy'n adeiladu ar waith blaenorol Cyngor Gofal Cymru. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd wedi ysgwyddo'r cyfrifoldebau dros wella gwasanaethau yn lle'r Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol, asiantaeth sydd wedi gwasanaethu gwasanaethau cymdeithasol llywodraeth leol ers sawl blwyddyn.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswyddau ar gyrff sector cyhoeddus i ymgysylltu'n well â'u cymunedau, gan ganolbwyntio ar strategaethau cynaliadwy tymor hwy i ymdrin â phroblemau llesiant yn eu cymunedau.

Gallai trefniadau newydd ar gyfer llywodraeth leol lywodraethu, cynllunio a chyflwyno ei wasanaethau yn y dyfodol fod yn nodwedd o newid yng Nghymru. Bydd hyn yn sicr yn cynnwys gwasanaethau cymdeithasol wrth i'r galw am ranbartholi gwasanaethau yn fwy barhau.

## Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru

Comisiynwyd yr adolygiad seneddol o ddyfodol hirdymor iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, a sefydlwyd panel o arbenigwyr annibynnol gyda'r dasg o gynhyrchu adroddiad a oedd yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Bydd yr adroddiad hwn, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2018, yn sail dystiolaeth sylweddol i arwain strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol hyd y gellir rhagweld. Mae'r adroddiad yn nodi bod angen i'n system iechyd a gofal newid yn sylfaenol, a bod angen darparu gofal o ansawdd uchel, sydd yn fwy rhagweithiol ac ataliol o lawer, ac sy'n cael ei ddarparu mor agos â phosibl i gartrefi pobl, ar gyfer unigolion sydd wedi'u grymuso i wneud penderfyniadau ynglŷn â'u gofal.

Bydd ADSS Cymru yn ymateb i ganfyddiadau'r adolygiad ar y cyd â chydweithwyr o lywodraeth leol, ac yn sicrhau bod gweithwyr proffesiynol ym maes gofal cymdeithasol yn dylanwadu ar y newid y gallai'r adroddiad hwn ei greu, gan gydnabod pwysigrwydd y gweithlu wrth gyflawni uchelgeisiau'r adolygiad.

## Llymder

Rydym yn credu bod angen i ofal cymdeithasol fod yn flaenoriaeth uwch yn wleidyddol ac yn ariannol ar gyfer Llywodraeth Cymru. Ers dyfodiad datganoli, mae gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi rhoi adnoddau i'r GIG ar draul llywodraeth leol. Gan weithio gyda'n cydweithwyr yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, rydym wedi hyrwyddo pwysigrwydd ein gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r angen i weinidogion Cymru gydnabod y pwysau sy'n ein hwynebu.

Wrth i'r galw am wasanaethau, ynghyd â disgwyliadau, barhau i dyfu, mae'r sylfaen gyllid ar gyfer llywodraeth leol gan y llywodraeth genedlaethol yn crebachu, gan roi pwysau hyd yn oed yn fwy ar awdurdodau lleol a'u partneriaid. Mae wedi bod yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau arbedion cyllidebol sylweddol ar yr un pryd â gwella ansawdd a darparu gwasanaethau.

Rydym yn parhau i ddarparu tystiolaeth ar y cyd ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch effaith pwysau cyllidebol a byddwn yn defnyddio ein harolwg cyllideb blynyddol ADSS Cymru i ddylanwadu ar bolisi Llywodraeth Cymru a chefnogi'r swyddogaeth graffu y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei chyflawni.

Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf bydd mwy o bwyslais ar awdurdodau'n herio arferion caffael a chomisiynu cyfredol am fod angen datblygu mwy o ddulliau sy'n seiliedig ar gymunedau, sy'n canolbwyntio ar unigolion ac sy'n ataliol. Mae heriau hefyd ar gyfer darparwyr gofal cymdeithasol o ran meddwl yn wahanol am sut maent yn trefnu a darparu gofal a chymorth ar gyfer pobl.

## Integreiddio a gweithio mewn partneriaeth

Bydd pwysau i integreiddio gwasanaethau ag iechyd yn arbennig yn tyfu wrth i Bartneriaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Rhanbarthol ddod yn fwy sefydledig. Bydd datrysiadau rhanbarthol yn dod yn fwy cyffredin, a chaiff byrddau a strategaethau gweithlu rhanbarthol eu datblygu. Ein rôl yw gweithio gydag eraill ar draws gwahanol sectorau i gyflenwi datrysiadau dyfeisgar ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Byddwn yn parhau i weithio hefyd gydag unigolion, gofalwyr a grwpiau cymuned i ddatblygu'r egwyddor cyd-gynhyrchu.

Byddwn yn canolbwyntio'n anochel ar amrediad o faterion fel oedi wrth drosglwyddo gofal a'r gwaith o weithredu cyllidebau cyfun ar gyfer darpariaeth cartrefi gofal. Mae ADSS Cymru yn parhau i weithio ar datrysiadau rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer rhai o'r prif heriau hynny, a byddwn yn parhau i wneud hynny mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill.

## Diogelu

Beth bynnag arall sy'n newid, bydd y ffocws ar ddiogelu yn parhau i fod yn sylfaenol i waith ADSS Cymru, fel y sefydliad sy'n cynrychioli'r rheiny sy'n gyfrifol am ddiogelu llesiant plant ac amddiffyn oedolion rhag niwed neu gamdriniaeth. Cyflwynodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 bwerau a threfniadau statudol newydd o ran diogelu oedolion, y bydd rhaid eu cyflenwi. Yn ogystal, bydd gwaith yn parhau er mwyn cyfundrefnu gweithdrefnau diogelu ar draws gwasanaethau plant ac oedolion, a hynny wedi'i ategu gan fframwaith hyfforddi staff trwyadl. Rydym yn parhau i ystyried bod gwaith y Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn hanfodol bwysig ar gyfer gweithio ar draws lleoliadau a sefydliadau.



# Y MATERION A'R GWEITHGAREDDAU RYDYM YN YMGYMRYD Â NHW_

## Ymgysylltu, Cymorth a Chyngor ynghylch Polisi Cenedlaethol

Mae elfen sylweddol o waith ADSS Cymru, yn arbennig yr hynny a gyflawnir gan y dîm arweinyddiaeth, yn cael ei harwain gan drafodaethau ffurfiol ac anffurfiol â Llywodraeth Cymru ac asiantaethau a sefydliadau partner ledled Cymru, ac ar draws yr holl sector iechyd a gofal cymdeithasol.

**Yn ystod y tair blynedd nesaf, byddwn yn:**

- mynegi safbwyntiau'r arweinwyr proffesiynol mewn gofal cymdeithasol trwy gynnal dadleuon cenedlaethol i sicrhau ein bod yn dylanwadu ar y materion a'r heriau hanfodol hynny
- darparu cyngor proffesiynol ar gyfer Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru trwy ymateb i ymgynghoriadau, cymryd rhan mewn gweithgorau polisi a rhoi tystiolaeth i bwyllgorau craffu
- cymryd rhan fel aelodau o fyrddau a phwyllgorau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol a'r Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant
- darparu amrediad o gymhorthion ymarferol ar gyfer ein haelodau, megis cyfarwyddyd arfer da
- parhau i gynhyrchu arolwg cyllideb genedlaethol blynyddol, gan amlinellu'r prif heriau ariannol sy'n wynebu gofal cymdeithasol
- gweithio'n rhagweithiol gydag asiantaethau partner eraill megis Gofal Cymdeithasol Cymru, y partneriaethau addysg a dysgu proffesiynol parhaus, a'r Bartneriaeth Strategol Genedlaethol ar gyfer Addysg Gwaith Cymdeithasol
- ymgysylltu ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol, gan weithio gyda sefydliadau cenedlaethol eraill megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru a Chonffederasiwn GIG Cymru
- darparu cyfathrebu rheolaidd, fel cylchlythyrau cyfnodol i hysbysu'r sawl y tu allan i'n sefydliad ynghylch y gwaith rydym yn ymgymryd ag ef.



## Mentrau Cenedlaethol

Mae ADSS Cymru yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid a rhanddeiliaid eraill, e.e. Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i sicrhau y gweithredir polisi cenedlaethol a newidiadau dilynol i wasanaethau'n effeithiol, gan chwarae rhan allweddol wrth drosi'r rhethreg yn realiti. Wrth gyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, trosglwyddwyd nifer fawr o ddatblygiadau polisi yn statudau, ac mae ADSS Cymru yn parhau i chwarae rhan ganolog wrth gefnogi'r gwaith o weithredu'r Ddeddf a nodi'r meysydd hynny o ddyfeisgarwch.

Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys ein gwaith gyda'r canlynol:

- Y Fframwaith Maethu Cenedlaethol
- Y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol
- Y gwaith o gyflwyno System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru
- Dull cenedlaethol ar gyfer Gwasanaeth Eiriolaeth Statudol i Blant
- Cydlynu gweithgarwch awdurdodau lleol a rhanbarthol wrth gefnogi'r gwaith o weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

## Digwyddiadau Cenedlaethol ADSS Cymru

Bob blwyddyn, mae ADSS Cymru yn cynnal digwyddiadau pwysig yng nghalendr gofal cymdeithasol Cymru, sy'n rhoi cyfle i'n aelodau, asiantaethau partner, cynghorwyr, gofalwyr a pobl sy'n derbyn gofal a chymorth i gwrdd ac i fynd i'r afael â materion penodol y dydd sy'n bwysig a pherthnasol ac ymateb iddynt. Mae'r digwyddiadau hyn yn cynnwys:

- Seminar y Gwanwyn
- Cynhadledd Gofal Cymdeithasol Genedlaethol Flynyddol
- Seminar yr Hydref

Mae ein digwyddiadau yn hanfodol i dod â phartneriaid strategol ynghyd, gan gynnwys partneriaid o'r llywodraeth, asiantaethau allanol, comisiynwyr, darparwyr gwasanaeth, sectorau gwirfoddol, cymunedol a phreifat, ac unrhywun sydd a chyfrifoldeb dros neu diddordeb mewn gofal cymdeithasol, i rannu profiadau ac arfer gorau a gwella dealltwriaeth o ddeddfwriaeth newydd a newidiadau polisi sydd ar droed.

Yn ystod 2017/18, datblygwyd perthynas newydd â Gofal Cymdeithasol Cymru, gan arwain yn 2018 at gyd-gynnal Cynhadledd Gofal Cymdeithasol Genedlaethol. Mae gwireddu'r digwyddiad hwn yn cydnabod yn ffurfiol perthynas newydd a chyffrous ac rydym yn croesawu'r cyfle unigryw i ddwyn ynghyd y sector gofal cymdeithasol cyfan - o staff rheng flaen a darparwyr gwasanaethau, i arweinwyr a gwneuthurwyr penderfyniadau yn y llywodraeth leol a chenedlaethol.

Mae ein seminarau yn gyfle i rannu arfer gorau, ac i wahodd arweinwyr ac ymarferwyr o sectorau eraill i weithio gyda ni i nodi ffyrdd ymarferol o gefnogi trawsnewid gofal cymdeithasol a gwella'r gwasanaethau y mae eu hangen ar bobl.

Fel rhan o'n rhaglen waith wrth gynnal y gynhadledd a seminarau, byddwn yn parhau i adeiladu ar ei pherthynas â Chymdeithas Llywodraeth Leol, Conffederasiwn GIG Cymru ac eraill, i archwilio cyfleoedd i gydweithio gyda phartneriaid ac i ehangu'r cyfleoedd i sefydliadau a gweithwyr proffesiynol fynychu a chyfranogi i'r digwyddiadau allweddol hyn.



# GWEITHREDU EIN STRATEGAETH_


Mae strategaethau yn rhoi ymdeimlad o gyfeiriad a diben. I gyflawni ein pwrpas a'n gweledigaeth, mae gan ADSS Cymru rhaglen waith cenedlaethol blynyddol sy'n mynegi ein gweithgareddau a sut maent yn cefnogi ein gweledigaeth. Bydd y datblygiad hwn yn cael ei wneud trwy waith ein Grwpiau Penaethiaid Gwasanaethau a'n Grwpiau Arweinyddiaeth a Strategol Proffesiynol.

## Rhaglen Waith Genedlaethol

Trwy ein grwpiau penaethiaid gwasanaethau, grwpiau arweinyddiaeth a strategol proffesiynol a'r llifoedd gwaith sy'n cael eu cefnogi gan Grant Cyflawni Agenda Drawsnewid Llywodraeth Cymru, mae gan ADSS Cymru raglen waith gynhwysfawr, gan weithio gydag eraill i gyflawni'r agenda newid eithriadol o heriol ynghylch gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Fel rhan o'n rhaglen waith genedlaethol, byddwn yn adolygu, yn flynyddol, y cynnydd a gyflawnwyd gennym wrth weithredu ein strategaeth.





## Grwpiau Arweinyddiaeth a Strategol Proffesiynol

**Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan (AWHoCS)**

Mae grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan yn cynnwys penaethiaid gwasanaethau plant o bob awdurdod lleol ac yn cwrdd yn chwarterol. Fel un o'n grwpiau allweddol, mae'n gyfrifol am arwain ar bob agwedd ar wasanaethau plant, gan lunio ymatebion ADSS Cymru i ymgynghoriadau polisi a mynegi llais arweinwyr proffesiynol yr awdurdodau lleol hynny sy'n darparu gwasanaethau i blant a theuluoedd ledled Cymru.

Hyd y gellir rhagweld, bydd gwaith y grŵp yn cael ei alinio â gwaith Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant Llywodraeth Cymru, gan fod y rhaglen yn allweddol i grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan a'i bartneriaid. Mae'r gwaith pwysig hwn wedi'i drefnu ar gyfer tymor 2016 – 2021 y Cynulliad, gyda gwahanol lifoedd gwaith y bydd aelodau grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan yn ymgymryd â nhw.

**Penaethiaid Gwasanaethau i Oedolion Cymru Gyfan (AWASH)**

Mae grŵp Penaethiaid Gwasanaethau i Oedolion Cymru Gyfan yn cynnwys penaethiaid gwasanaethau i oedolion o bob awdurdod lleol ac yn cwrdd bob yn ail fis i drafod y problemau hynny sy'n cyfrannu at allu'r gwasanaethau i ddarparu'n effeithiol ar gyfer oedolion, ac yn arbennig pobl hŷn. Mae'r trafodaethau Cymru gyfan hyn yn galluogi uwch-staff i rannu arfer gorau ac ystyried sut y mae gwasanaethau i oedolion yn newid ledled Cymru. Bydd y grŵp yn canolbwyntio ar amrediad o faterion strategol yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf, gan gynnwys ymgorffori Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, archwilio'r newidiadau sydd eu hangen wrth ddarparu gofal cartref a phreswyl, ac ymateb i'r heriau wrth ddarparu gofal a chymorth i nifer gynyddol o'r boblogaeth hŷn sydd â dementia.

**Penaethiaid Gwasanaethau Busnes Cymru Gyfan (AWHoBS)**

Mae grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Busnes Cymru Gyfan yn cynnwys cynrychiolwyr a phenaethiaid gwasanaethau busnes o bob awdurdod lleol ac, yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r grŵp hwn wedi bod yn allweddol wrth weithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i wella arferion casglu data, rheoli perfformiad, ac adrodd gwybodaeth sy'n dangos sut mae pobl yn cael eu cefnogi gan amrediad o wasanaethau yn eu hardal.



**Grŵp Arweinyddiaeth ynghylch Diogelu**

Mae'r Grŵp Arweinyddiaeth ynghylch Diogelu yn grŵp amlasiantaeth ac mae'n cymryd yr awenau o ran cydlynu polisi ADSS Cymru ynghylch materion diogelu oedolion a phlant. Mae'r grŵp yn cwrdd bob chwe mis.

**Grŵp Arwain y Gweithlu**

Mae'r Grŵp Arwain y Gweithlu yn cynnwys cynrychiolwyr o Ofal Cymdeithasol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, cyfarwyddwyr adnoddau dynol mewn awdurdodau lleol, rheolwyr y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, a chyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol arweiniol y gweithlu o bob un o'r chwe rhanbarth. Mae'r grŵp yn cwrdd bob chwe mis. Mae'n gysylltiedig â Grŵp Rheolwyr Gweithlu Cymru Gyfan.

Mae ganddo'r prif gyfrifoldeb yn ADSS Cymru dros broblemau mewn perthynas â'r canlynol:

- cynllunio a datblygu'r gweithlu
- fframweithiau hyfforddi a chymwysterau
- mentrau recriwtio, cadw a gyrfaoedd
- cynrychiolaethau a chysylltiadau ADSS Cymru â chyrff rheoleiddio cenedlaethol a hyfforddi.

**Arwain ar ddewis iaith / Mwy na Geiriau**

Rhan allweddol o'r sgiliau a fynnir gan ein gweithlu yw'r galw am gyflenwi gofynion strategaeth Llywodraeth Cymru *Mwy na geiriau* – i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael eu cynnig ac yn derbyn gofal a chymorth yn eu hiaith gyntaf. Ar hyn o bryd, mae ADSS Cymru yn chwarae rhan arweiniol mewn perthynas â'r agenda bwysig hon ac mae ein cyfarwyddwr arweiniol hefyd yn aelod o Fwrdd Partneriaeth Cenedlaethol y Gymraeg, a gadeirir gan Lywodraeth Cymru.

Fel sefydliad cenedlaethol, rydym yn ymroddedig i roi mwy o ddewis a rheolaeth i ddinasyddion a sicrhau bod dinasyddion yn derbyn gwasanaethau yn yr iaith y mae ei hangen arnynt. Bydd hyn yn golygu sicrhau bod y sgiliau ieithyddol cywir ar gael yn y gweithlu i ddarparu gwasanaethau trwy'r iaith a ddewisir, ac bod yr arweinyddiaeth a'r amgylchedd briodol ar waith i sicrhau y bodlonir anghenion ieithyddol y gweithlu.

## Cymorth Busnes

Mae Uned Fusnes ADSS Cymru, a leolir yn Abercynon, yn ymdrin ag amrediad eang o weithgareddau gweinyddol ac ariannol. Yn ogystal â darparu cymorth uniongyrchol i aelodau, mae'r tîm yn sicrhau bod y busnes yn mynd rhagddo'n rhwydd ac yn gweithredu fel pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ymholiadau'r cyfryngau ac ymholiadau eraill.

Am ragor o wybodaeth am ein gwaith, cysylltwch ag Uned Fusnes ADSS Cymru.

ADSS Cymru
Uned Busnes ADSS Cymru
Ty Antur, Parc Mordwyaeth, Abercynon CF45 4SN

Ffôn: 01443 742641
Ebost: contact@adsscymru.org.uk
Gwefan: adsscymru.org.uk
Twitter: @adsscymru